
Llais Llandyrnog Voice

Ebrill 2020 – Cyfrol 5 – Rhifyn 7

Ysbryd Cymunedol Llandyrnog

Yng nghanol pandemig sy'n cyffwrdd â'n bywydau ni i gyd, a hunanoldeb pobl yn gwagio silffoedd archfarchnadoedd, gallwn fod yn ddiolchgar am rai pethau o hyd: byw mewn man prydferth gyda lle i fynd allan er ein bod hi'n hunanynysu; golygfeydd gwych i'w gweld heb orfod adael ein cartrefi; cyfeillion a chymdogion parod i helpu; dieithriaid yn cynnig nôl presgripsiynau a nwyddau; y tafarnau'n gorfod cau ond yn dal i gynnig prydau bwyd a'u danfon os oes angen; siop gig wych sy'n cyflenwi pob math o fwydydd, cig a phapurau newydd



ac yn cynnig eu danfon os nad ydych chi'n gallu mynd allan; ysgolion yn cau ond yn agor eto i ganiatáu i blant gweithwyr allweddol neu blant anghenus barhau i fynd yno. Mae'r grwpiau cyfryngau cymdeithasau lleol yn ffynhonnell ardderchog o wybodaeth, cyngor ac adloniant. Yn y cyfamser mae tîm y *Llais* yn hynod falch ein bod yn gallu parhau i gynhyrchu ein cylchgrawn ac yn gobeithio y bydd yn dod â rhywfaint o gysur i chi.

Mae digwyddiadau'n newid yn gyflym ac mae hyn wedi golygu newid nifer o bethau yn y funud olaf. Rwy'n gobeithio y byddwch yn cael y wybodaeth ddiweddaraf – mae cymaint wedi'i ganslo'n ddiweddar!

Rwy'n gobeithio bydd y llun hwn yn gwneud i chi wenu, yn fy marn i mae'n crynhoi ymdeimlad y gwanwyn.

Yn ystod y cyfnod pryderus yma a'r posibilrwydd eich bod chi'n dewis neu'n cael eich gorfodi i hunanynysu, mae croeso i chi anfon neges at llandyrnognews@gmail.com neu gysylltu â Bryn ar 07787 561191. Mi wnawn yn siŵr fod gennych ffrind hunanynysu i sicrhau bod bwyd, meddyginiaethau a.a. yn dod i'ch cartref.

O gwmpas y pentre

Cydymdeimlwn â ...

... **Kevin, May, Ben a Rosie**, gynt o Glan y Wern Farm, ond yn byw yn Llaneurgain erbyn hyn, ar farwolaeth John yn ifanc ac ar ôl salwch byr iawn. Roedd John yn meddwl y byd o Landyrnog a byddai bob amser yn holi am y pentref. Roedd yn ddiolchgar iawn am y caredigrwydd a gafodd drwy gydol ei gyfnod yng Nglan y Wern.

... **Pam Lloyd**, sydd wedi colli ei brawd.

... **Margaret**, Pen y Bryn, ar farwolaeth sydyn ei thad.

... **Mair Edwards**, Moelfre, yn sgil marwolaeth Robin.

Dymunwn wellhad buan i ...

... **Lyn Rose**, sydd wedi torri ei harddwrn.

... **Sue Vine**, gobeithiwn y bydd hi gartref cyn bo hir.

Mae **Wyn Wilson** yn diolch yn fawr iawn am yr holl gardiau, anrhegion a blodau a gafodd ar ei phen-blwydd. Diolch yn arbennig i griw'r Clwb Llyfrau.

Neges gan dîm pêl-droed cynghair yr haf Llandyrnog: pen-blwydd hapus iawn iawn yn 40 oed i arwr y clwb, **Tudur Morris**. Efallai ei fod yn 40 oed, ond heb fod yn ddigon tal i fynd ar y roller-coasters yn Alton Towers. Pen-blwydd hapus!

Pob dymuniad da i ...

... **Ellen Newcombe** ar ddathlu pen-blwydd arbennig.

... **Richard**, Hafod y Bryn, ar ei ymddeoliad ar ôl 16 mlynedd o wasanaeth i fydd amaeth gyda'r Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth.

... **Hywel**, Hafod y Bryn, yn ei swydd newydd gyda chwmni Jones Peckover, Dinbych.

Croeso i ...

... **Rob ac Ella** sydd wedi dod i Glan Aber i fyw.

... **Owain a Llinos** a fydd yn symud i Clwyd Bank.

Staff ClwydAlyn yn cysgu allan

Mae Arwyn, Sgubor Efa, yn Rheolwr Datblygu cymdeithas dai ClwydAlyn. Yn rhinwedd y swydd honno, cymerodd ran ddechrau mis Chwefror yn y noson o gysgu allan flynyddol. Diben hyn oedd cael ymdeimlad o'r hyn y mae'r rhai llai ffodus yn ein plith yn ei ddioddef bob nos ac fe gysgodd allan yn Rhuddlan.

Cododd Arwyn a'i gyd-weithwyr y swm anhygoel o £7,200 drwy'r digwyddiad. Bydd yr arian yn mynd lle bo'i angen – at Dîm Digartrefedd ClwydAlyn a fydd yn prynu nwyddau i sicrhau bod y rhai sy'n cysgu allan go iawn yn cael budd o'r digwyddiad ardderchog hwn.

Da iawn, Arwyn – mae'n siŵr ei fod ychydig yn nerfus wrth sylweddoli ei fod yr unig ddyn ymhlith naw o ferched!



Dod i adnabod Phil Rose

Cefais fy ngeni a'm magu yng Nghilgwri ('Sgowsyn Plastig') yn Grasmere Avenue, Noctorum, Penbedw yn 1950. Noctorum ... dyna chi 'posh'!

Doedd fy llwybr dysgu ddim un o'm profiadau gorau: Ysgol Gynradd Overchurch – ddim yn ddrwg, ond Ysgol Uwchradd Park – dyna stori arall! Lladin, Ffrangeg a hanes: am be' maen nhw'n sôn? Dim gwersi gwaith coed, gwaith metel nac arlunio technegol. Beth bynnag, bum mlynedd yn ddiweddarach, mi adawes i'r ysgol efo tair Lefel 'O': mathemateg, Saesneg a ffiseg. Ddim yn wych, ond digon i gael prentisiaeth gyda'r BICC (*British Insulated Callendar's Cables*) yn Prescott, Sir Gaerhifryn, fel trydanwr. Ar ôl 4 blynedd o fynd unwaith yr wythnos i'r coleg, a thair blynedd o ysgol nos, mi lwyddais drwy ryw wyrth i gael HND mewn Peirianeg Drydanol ac Electronig! Mi ges ddyrchafiad wedyn o fod yn drydanwr ffatri i fod yn beiriannydd datblygu – roeddwn yn gweithio ar fesur a rheoli tymheredd mewn gorsafoedd ynni niwclear a gydag injans jet Rolls Royce.

Mi wnes i gyfarfod fy ngwraig Lyn pan ddois i draw i wneud gwaith trydanol yn y Golden Lion, Llangynhafal – roedd y perchnogion ar y pryd yn ffrindiau i'r teulu ac wedi dod o Gilgwri. Roedd ein cartre' cyntaf ni yn Orrell, wrth ymyl Wigan. Er bod hi'n ardal braf iawn i fyw ynddi, roedden ni'n dau'n ysu am gael mynd yn ôl i Ddyffryn Clwyd. Felly, cam cyntaf ein cynllun ni oedd cael swydd newydd. Mi ges i swydd peiriannydd cynnal a chadw, a chael car cwmni. Roedd hynny'n golygu y gallwn fyw unrhyw le yn y gogledd-orllewin. Felly dyma ni'n prynu Bwthyn Ffordd Ddŵr yn Llandyrnog a symud i mewn ym mis Hydref 1982. Un peth sy'n sefyll allan yn y cof am y symud – edrych ar y teledu wrth aros am y fan ddodrefn a gweld y *Mary Rose* yn cael ei chodi o'r môr.

Peiriannydd cynnal a chadw oeddwn i gwmni Americanaidd o'r enw Waters Associates – gosod a chynnal cromatograffau hylifol, sbectromedrau màs ac offer gwyddonol tebyg i'r diwydiant fferyllol. Yn wreiddiol, roedd fy ngwaith yn ymestyn i bobman yn y Deyrnas Unedig, ond erbyn y diwedd roeddwn i hefyd yn teithio i'r Iseldiroedd, Gwlad Belg, Sweden, a'r Ffindir. Mi es i hyd yn oed mor bell â'r India, i Poona, i baratoi cromatograff arbenigol iawn. Ond doedd hi ddim yn daith hawdd. Ar ôl tri diwrnod o deithio, mi gyrhaeddais i Sefydliad Poona. Dadbacio cawell trofannol o'r llong a gweld bod weirio mewnol yr offer wedi'i falu'n rhacs gan lygod mawr oedd wedi nythu yn y gawell tra oedd o'n aros yn Mumbai i'w anfon ymlaen. Mae popeth yn yr India yn cymryd amser maith!

Dros y blynyddoedd, rydw i'n amcangyfri' 'mod i wedi gyrru dros filiwn o filltiroedd ac wedi cael y filltir olaf o sawl math o gar – Cortina Mk4, Cavalier CDI, Sierra Ghia, Mondeo a Land Rover Discovery. Erbyn hyn, rydw i wedi ymddeol ac mae gen i bicyp gyriant pedair olwyn sy'n addas iawn ar gyfer byw yn y wlad, ond dim mor dda ar gyfer y blaned! Ac mae gen i Morris 8 Tourer 1935 ers sawl blwyddyn – dw i wrthi ar hyn o bryd yn trio ei drwsio'n ddigon da ar gyfer y ffordd fawr!

Wel, dyna fy hanes i. Ryden ni'n byw yn Llandyrnog ers 38 mlynedd – mi fase'n anodd iawn meddwl am fyw yn unrhyw le arall ond Dyffryn Clodfawr Clwyd.

Phil Rose

Llais Llandyrnog Voice:

e-bost: llandyrnognews@gmail.com

Twitter: @LlaisLlandyrnog

Gwasanaethau'r Eglwysi

Gwasanaethau Ebrill 2020

Oherwydd y coronafirws, ni fydd gwasanaethu'n cael eu cynnal hyd y gellir rhagweld.



Yn ein cyfarfod fis Mawrth fe glywsom sut roddodd ei fam y babi Moses mewn cawell yn yr hesg ar Afon Nil ac ymddiried yn Nuw i achub ei fywyd. Hefyd, bod tywysoges o'r Aifft wedi'i gymryd o'r afon.

Fe fuon ni'n meddwl am ein mamau ein hunain ac yn gwneud cardiau i'w rhoi iddyn nhw ddydd Sul y Mamau. Fe wnaethon ni flodau a llafrwyng (*bulrushes*) ac fe fuon ni'n addurno bisgedi siâp calon. Roddodd pawb help llaw i wneud basged fawr i gadw'r babi'n ddiogel.



Capel y Dyffryn

Gwasanaethau Ebrill 2020

Oherwydd y coronafirws, ni fydd gwasanaethu'n cael eu cynnal hyd y gellir rhagweld.

Dydd Gŵyl Dewi: Bore Sul 1af Mawrth, cynhaliwyd gwasanaeth Gŵyl Ddewi'r Plant yn y Festri. Yn dilyn gwasanaeth hyfryd gan y plant a neges amserol gan Heledd Iago, mwynhawyd gwledd o ganu unawdau a deuawdau ac adroddiadau gan y plant a'r bobol ifanc. Wrth gwrs rhaid oedd cael paned o de a Chacennau Cri ar ddiwedd y gwasanaeth

Y Gymdeithas: Nos Lun 2 Mawrth, daeth llond y Festri i Swper i ddathlu Gŵyl Ddewi. Ar ôl gwledd hyfryd, mwynhaodd pawb adloniant gyda'r ddeuawd Tonig, y ddwy chwaer Dona a Sandra. Ymysg y datganiadau cafwyd hefyd iodlo cofiadwy! Diwedd glo teilwng i dymor y Gymdeithas

Dydd Gweddi'r Byd: Cynhaliwyd y gwasanaeth eleni Nos Wener 6 Mawrth yn Eglwys Sant Tyrnog. Arweiniwyd y gwasanaeth gan Mary Steel a Veronica Roberts, gydag aelodau o'r Eglwysi St Tyrnog a Cwyfan a Chapel y Dyffryn yn cymryd rhan.

Thema'r gwasanaeth oedd Cod, Cymer dy Fatras a Cherdda, oedd wedi ei baratoi gan ferched Cristnogol Zimbabwe. Yn y gwasanaeth maen nhw'n rhannu'r heriau maen nhw wedi eu hwynebu a'u gobeithion am y dyfodol. Cawsom ein hannog i fyfyrion ynghylch yr anawsterau a'r helyntion sydd wedi bod yn fwrn ar eu gwlad dros flynyddoedd lawer, ac o glywed eu straeon, yr her i ni gyd ydi ceisio cariad, heddwch a chymod ... ym mhob man!

Oherwydd y coronafirws, ni fydd cyfarfodydd na grwpiau'n cael eu cynnal hyd y gellir rhagweld.

Gair gan ein cynghorydd

21 Mawrth ydy'r dyddiad wrth i mi ysgrifennu'r llyth yma. Mae'n siŵr mai dyma'r adeg ryfedda yn fy mywyd, hyd y galla i gofio. Rydyn ni wedi cael cyfarwyddyd i gau'r Ceffyl Gwyn, byddwn yn gwneud ein prydau ar glyd yfory ar gyfer Sul y Mamau, a dyna ni. Rydyn ni'n cau nes y byddwn ni'n gwybod ei bod hi'n ddiogel i agor ein drysau eto.

Rwy'n gobeithio eich bod chi i gyd yn cadw at y cyfarwyddiadau gan Lywodraeth Cymru a San Steffan ynglŷn â'ch diogelwch chi a'ch teulu. Dydyn ni ddim wedi arfer â hyn, ond nawr rwy'n argyhoeddedig mai hunanynysu a chyfyngu ar ein cysylltiad ag eraill yw'r ffordd orau i'n hamddiffyn rhag y firws ofnadwy yma. Rydyn ni'n debygol iawn o weld ei effeithiau yn ein hardal ni a chadw at y cyfarwyddiadau yw'r ffordd orau o gyfyngu ar y firws. Diolch yn fawr i'r gweithwyr allweddol sy'n peryglu eu hiechyd eu hunain i helpu eraill.

Os ydych chi'n gwybod am rywun sy'n hunanynysu ar ei ben ei hun, ffoniwch o neu hi, am sgwrs neu i gynnig help – mae'n mynd i fod yn gyfnod unig i nifer fawr o bobol. Os ydych hi'n helpu rhywun i siopa neu i nôl eu presgripsiwn, peidiwch â dod i gysylltiad â nhw – gollyngwch y neges y tu allan i'w cartre a ffoniwch nhw i ddweud wrthyn nhw ei bod yno.

Yn anffodus, mae rhai sy'n manteisio ar bob argyfwng – byddwch yn ofalus os bydd rhywun nad ydych chi'n ei adnabod yn cynnig help i chi, boed o ddrws i ddrws neu dros y ffôn. Os ydych chi'n ansicr, ffoniwch fi unrhyw adeg.

Mae grŵp ar Facebook sy'n cael ei ddiweddarau'n rheolaidd o ran newyddion lleol. Ymunwch â'r grŵp os nad ydych chi'n perthyn iddo eisoes – 'Llandyrnog Community Cymuned Llandyrnog'. Hefyd mae croeso i chi gynnig sylwadau synhwyrol ar y dudalen neu ofyn am help. Rydyn ni'n ffodus ein bod yn byw mewn cymdeithas wych – daliwch ati gyda'r gwaith da a byddwch yn ddiogel.

Cofion cynnes

Cyng Merfyn Parry

City Travel & Tours

Local ABTA &
ATOL Bonded
Independent
Travel Agent



Cruises, coach tours, family holidays, skiing trips, concert events, UK breaks – you name it, we can book it for you.

Karin, Lesley & Jackie have a combined 90 years of travel experience, so call us for friendly travel advice.

We are based at Tweedmill, St Asaph
Tel: 01745 730321
Email: citytravel@tarsc.net

Cynghorydd Sir Ddinbych

Merfyn Parry

Manylion cyswllt

Ffôn symudol: 07836 208446

E-bost: merfyn.parry@denbighshire.gov.uk

neu gadewch neges iddo ar Facebook



Rysáit y mis

Gyda’r Pasg yn nesáu, beth am bobî cacen Basg?

Cynhwysion:

- 10 owns margarîn Stork
- 8 owns siwgr brown
- 4 wy maint canolig
- 8 owns ffrwythau sych cymysg
- 4 owns ceirios, cnau Ffrengig ac unrhyw ffrwythau eraill sydd gennych, wedi’u torri’n fân
- 12 owns blawd plaen
- 1 llwy de fach o bowdr pobi a sbeis cymysg

Dull:

- Leiniwch tun crwn dwfn, 8 modfedd, â phapur gwrthsaim.
- Curwch y margarîn gyda’r siwgr.

- Curwch yr wyau, ac ychwanegwch nhw at y siwgr a’r margarîn.
- Hidlwch y blawd, ac ychwanegwch hwn a’r ffrwythau sych at y cymysgedd, gan ychwanegu ychydig o hylif os nad yw’n ddigon gwlyb.
- Rhowch y tun cacen ar dun pobi yng nghanol y popty ar wres o 325°F (165°C) am awr, wedyn gostyngwch y tymheredd i 300°F (150°C) m hanner awr arall, neu nes bydd sgiwer rydych chi wedi’i roi ynddo’n dod allan yn lân.
- Addurnwch fel y mynnoch.

Alma Lloyd Jones

Ffrindiau Dementia

Erbyn hyn mae nifer o ‘Ffrindiau Dementia’ newydd yn Llandyrnog ar ôl gweithdy diweddar a fu yn yr Ystafelloedd Coco. Arweinydd y gweithdy oedd Dilwyn Jones o fudiad Dementia Gyfeillgar Dinbych ac fe ddaethom i ddeall fod gennym ni i gyd brofiadau i’w rhannu. Roedd y pnawn yn un trist a doniol fel ei gilydd, ond fe ddysgon ni gymaint gan Dilwyn a gennym ni’n gilydd. Fe ddysgon ni mai term cyffredinol yw ‘dementia’ a bod sawl ffurf arno, fel clefyd Alzheimer, dementia blaenarleisiol (*frontotemporal*) a dementia fasgwlar. Nid yw’n rhan naturiol o broses heneiddio – clefydau ar yr ymennydd sy’n ei achosi. Gall effeithio ar eich gallu i feddwl, cyfathrebu a chyflawni tasgau pob dydd, yn ogystal ag ar eich cof. Ond fe ddysgon ni hefyd ei bod hi’n bosib byw’n dda gyda dementia a bod mwy i’r unigolyn na’r clefyd yn unig. Y sylw trawiadol a chofiadwy i mi oedd: “Os ydych wedi cyfarfod ag un person sydd â dementia ... rydych chi wedi cyfarfod ag un person sydd â dementia.”

Mae cymaint o bobl yn byw gyda’r clefyd ond mae’n effeithio ar bawb mewn ffyrdd gwahanol. Felly mae’n bwysig ceisio peidio â rhoi pawb yn yr un categori.

Mae Dilwyn a’i dîm wedi bod yn rhedeg cyrsiau’n rheolaidd yn Ninbych. Os hoffech fynd i un ohonyn nhw, bydd croeso cynnes yn eich disgwyl, pan fydd pethau wedi dod yn ôl i drefn. Roedden ni yn meddwl ei bod hi’n werth chweil, yn bendant, a byddwn yn gwisgo’r bathodyn ‘Ffrind Dementia’ gyda balchder.



Y Gymdeithas Hanes

Chwefror 2020

Daeth aelodau Cymdeithas Hanes Lleol Llandyrnog a Llangwyfan at ei gilydd drwy'r tywydd gwael i wrando ar gwrs gan Edwin Hughes am foderneiddio amaethyddiaeth a sut mae wedi newid dros y blynyddoedd.

Roedd Mr Hughes yn ffermio Cornist Ganol yn y Fflint, gan ganolbwyntio ar ffermio defaid a gwartheg nes iddo 'led' ymddeol yn ddiweddar.

Soniodd Mr Hughes am ddigwyddiadau hanesyddol y mae o'n credu eu bod nhw'n parhau i fod yn bwysig o ran amaethyddiaeth hyd heddiw:

18fed ganrif – y Chwyldro Diwydiannol a ddaeth ag arferion da gyda buddion economaidd yn ei sgil, fel cylchdroi cnydau.

19eg ganrif – diddymu'r Deddfau ŷd, a gafodd effaith gadarnhaol iawn, wrth i dollau ar mewnfôrion ac allfôrion gael eu dileu.

1914–18 – y Rhyfel Byd Cyntaf, pan gollwyd cynifer o geffylau, oedd y catalydd ar gyfer mecaneiddio a chael tractorau (tractorau Fordson yn bennaf o'r Unol Daleithiau) i helpu ymdrech y rhyfel.

Yr 1920au – Deddf Daliadau Amaethyddol a oedd yn golygu bod dynion a oedd yn dod adre o'r rhyfel yn gallu cael unedau o tua 12 acer i'w helpu i ddechrau ffermio.

Yr 1930au – sefydlu byrddau statudol, fel y Bwrdd Marchnata Llaeth, a wnaeth i'r ffermwyr gyd-weithio ac a ddarparodd warant o gael eu talu'n rheolaidd.

1947 – Deddf Amaethyddiaeth a ganiatâi i denant o ffermwr ddal yr eiddo hwnnw hyd ddiwedd ei oes, ac i'w feibion a'i ferched gael yr hawl i gadw'r denantiaeth. Hefyd roedd yn caniatáu i'r ffermwr gael taliadau diffyg petai pris anifeiliaid a chnydau'n mynd yn is na lefel y cytunwyd arni.



Wedyn dangosodd Mr Hughes luniau a oedd yn dangos sut mae ffermio wedi datblygu. Er enghraifft – wyna dan do yn lle allan; ieir yn cael eu magu mewn unedau batri yn lle'u bod yn cael rhedeg yn rhydd ar y buarth; parlyrau godro wedi'u mecaneiddio yn lle'r stôl odro; contractwr yn torri holl wair fferm mewn llai na diwrnod yn lle ceffyl yn cymryd diwrnod i dorri un cae o wair; tractor John Deere anferth heddiw yn lle'r 'Fergie bach'. Cyfaddefodd ei fod yn berchen ar ddeugain o hen dractorau!

Wedyn gwahoddwyd y gynulleidfa i ddyfalu beth oedd ambell hen declyn. Tybed pa mor lwyddiannus wrth ddyfalu oedd y rhai yn y gynulleidfa a oedd heb unrhyw gysylltiad â byd amaeth?!

Mae cyfarfod mis Mai o'r Gymdeithas Hanes wedi'i ganslo oherwydd y coronafirws.

Ysgol Bryn Clwyd



Cafodd Ffederasiwn Ysgol Bryn Clwyd ymweliad gan Weinidog Addysg Cymru, Kirsty Williams. Fe dreuliodd hi fore yn y gwersi ac yn siarad â'r plant, y staff a phobl o'r pentre.

Cafodd ei chroesawu wrth gyrraedd gan ddosbarth meithrin yr ysgol a ganodd eu hoff gân Gymraeg: 'Clap, clap, un, dau, tri'. Yna fe aeth i ddosbarth y babanod lle gadawodd ôl ei llaw yn ogof oes y cerrig. Yn y dosbarth iau ymunodd y Gweinidog ag ychydig o waith ar raglennu robotiaid a thechnegau myfyrio. Daeth cyn-ddisgyblion yr ysgol heibio hefyd i sgwrsio â hi.

Meddai Ms Williams, 'Ymweld ag ysgolion yw un o fy hoff agweddau ar y swydd. Roeddwn i'n hoffi agwedd Ysgol Bryn Clwyd at les ei disgyblion a mwynheais gymryd rhan yn y dosbarth myfyrio yn fawr iawn.'



Aelodau'r Pwyllgor:

Ruth Griffith (Cadeirydd), Ivan Butler (Trysorydd a chysodydd), Anwen Davies (cysodydd), Gwen Butler, Jack Crowther, Bryn Davies (tanysgrifiadau a hysbysebion), Ann ac Iestyn Jones-Evans (cyfieithwyr), Anne Rowley-Williams, Rhian Jones, Margaret a Rod Williams, Sian Gwyn-Ifan (cyfieithydd)

Anfonwch eich newyddion a'ch erthyglau at llandyrnognews@gmail.com

GLYN EVANS AUTOCLINIC

Canolfan Trwsio Ceir

Ystâd Ddiwydiannol Colomendy
Dinbych LL16 5TA



GWAITH YSWIRIANT

TRWSIO CEIR AR ÔL DAMWEINIAU

CEIR I'W BENTHYG

GWASANAETH NÔL CEIR WEDI TORRI I LAW

01745 815141

07808970364

E-bost: evansautoclinic@btconnect.com

Nodiadau o Ardd Plas Ashpool

Wel am newid byd ers y rhifyn diwethaf o Llais Llandyrnog! Mae cymaint o ansicrwydd ym mhob man, yn y dref ac yng nghefn gwlad.

Er bod digwyddiadau'n cael eu canslo i bob cyfeiriad, rwy'n gwybod i sicrwydd nad yw garddio wedi'i ganslo, na cherdded ar hyd ein llwybrau prydfferth neu ar lan y môr, na chadw mewn cysylltiad â ffrindiau a theulu dros y we neu ar y ffôn, darllen llyfr da, dechrau diddordeb newydd gartref, a gwylio rhaglenni doniol ar y teledu.

A dweud y gwir, mae digon i godi'n calonnau ddim ond i ni chwilio drwy'r niwl o bryder ac anghysur.

Rwyf newydd glywed ar y radio fod yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn cadw'i gerddi'n agored ac na fydd neb sy'n dymuno dianc rhag caethiwed y cartref yn gorfod talu am ymweld â nhw.

Yn y cyfamser, mae'n bleser gweld y perthi'n deilio a rhai o'r coed ceirios, eirian damson ac almwn yn dechrau blaguro.

Wrth i'r tywydd wella a'r tymheredd godi'n ara' deg, felly hefyd y clywn yr arogleuon da yn yr ardd yn cryfhau. Ar hyn o bryd, mae aroglau da'r llwyni bliwlys (*Daphne*) a'r wifwrnwydden (*Viburnum*), yr hiasinthau a'r narsisi, yn fendigedig.

Fel erioed, yr adeg hon o'r flwyddyn mae'r tatws yn barod i'w plannu ac mae digonedd o becynnau hadau ar fwrdd y gegin. Mae tomen o ddillad i'w smwddio yn y fasedd ac mae angen rhoi trefn ar silffoedd y pantri. Felly hyd yn oed yn y tŷ, bydd gen i ddigon i 'nghadw i'n brysur. Rwy'n gobeithio y byddwch chithe hefyd yn gallu bod yn gadarnhaol, hyd yn oed os ydych chi'n gorfod aros gartre.

Felly, tan y tro nesa, gobeithiwn am newyddion mwy calonogol a hapusrwydd wrth arddio.

Fiona Bell



Denbigh
Building
Plastics

SUPPLIERS & INSTALLERS

*U_PVC windows, doors, rockdoors,
secondary double glazing, sealed units.
Conservatories, porches, garage doors,
fascias, gutters, dry verge system,
Firestone rubber roofing and canopies.*

Unit 7
Colomendy Industrial Estate
Denbigh LL16 5TA
01745 818849

Open Mon—Fri 7.30am—5 pm
Sat 9 am—12 pm

James Davies

Aelod Seneddol Dyffryn Clwyd

james.davies.mp@parliament.uk

0207 219 3000

Rhifau Ffôn Defnyddiol

Canolfan Gofal Cwsmer Cyngor Sir
Ddinbych—01824 706101

Rhif ffôn Cyngor Sir Ddinbych y tu allan i
oriau swyddfa—03001233068

Heddlu Gogledd Cymru 101 (heb frys)

Riportio baw cŵn 0800 2300 2345

Gair gan y Rheithor

Dydyn ni erioed wedi gweld cyfnod tebyg i'r wythnosau diwetha. Mae nifer yn pryderu ac yn ofni'r dyfodol. Rydyn ni'n gwneud ein gorau i roi sylw i'r rhybuddion a gofalu am y rheini o'n cwmpas. Ddydd Mawrth, 17 Mawrth fe gawson ni wybodaeth na fydd unrhyw oedfa yn cael ei gynnal mewn eglwysi, gan gynnwys priodasau, angladdau a bedyddiadau. Bydd angladdau'n digwydd naill ai yn yr amlogfa neu ar lan y bedd. Yn unol â chyfarwyddiadau'r llywodraeth a ddiweddarwyd 23 Mawrth, mae pob eglwys erbyn hyn wedi cau.

Dyma gyfnod heriol iawn, na welwyd erioed mo'i debyg yn ein hoes ni. Mae diwrnod cynta'r gwanwyn newydd fod, ond go brin bod gennym ni lawer i edrych ymlaen ato. Ond mae'r gwanwyn yn arwydd o obaith ymhlith y mwrlwch. Mae'r tymhorau'n dal i newid a daw goleuni'r gwanwyn o dywyllwch y gaeaf. Mae'r goleuni'n dal i fod yno hyd yn oed yn y cyfnod anodd hwn.

Yng Nghalendr y Cristnogion rydym yn dod at ddiwedd y Grawys ac yn dod at yr Wythnos Fawr a'r Pasg. Drwy gydol y Grawys mae Cristnogion yn teithio gydag Iesu i'r anialwch, lle bu'n ymprydio am ddeugain niwrnod i baratoi ar gyfer Ei weinidogaeth. Drwy gadw'r Grawys, mae Cristnogion yn ymuno ag Iesu ar Ei encil; mae'n adeg gweddïo a myfyrio. Ar ddechrau'r Wythnos Fawr rydym yn rhannu cyffro Sul y Blodau, ond cyn i ni gyrraedd llawenydd Sul y Pasg, rhaid i ni gerdded llwybr y Groes gydag Iesu, gan rannu ei boen a'i ddioddefaint. A hyn er mwyn i ni brofi gwir lawenydd Sul y Pasg.

Ein addewid o obaith yw'r Pasg. Ddydd Gwener y Groglith, mae hi fel petai popeth wedi mynd o chwith. Sut allai Iesu fod ar y groesbren, a'r disgyblion wedi gobeithio cymaint ohono? Roedden nhw'n methu dioddef edrych arno ac fe aethon nhw i guddio. Cuddio rhag y digwyddiadau

arswydus, yn ofni eu dyfodol. Doedden nhw ddim yn gwybod, fel yr ydym ni'n gwybod, y byddai Crist yn codi o farw dridiau'n ddiweddarach ac y byddai gogoniant yr Arglwydd yn tywynnu'n ddisglair. Hyd yn oed yn yr adeg anodd hon, cawn ein hatgoffa y bydd Sul y Pasg yn dilyn tywyllwch dydd Gwener y Groglith bob amser.

Yn ddiweddar, rydym ni wedi gweld sawl enfys drawiadol ar draws y dyffryn. Mae ambell un wedi ceisio tynnu'i llun, rhai'n eithaf llwyddiannus, ond dim ond am amrantiad mae'r enfys yno, yn fregus yn ei dwyster. Ac rydym ni'n teimlo'n fregus yr adeg hon, ond yn y teimlad bregus hwnnw rydym yn ymddiried yn Nuw, sy'n dod â goleuni a gobaith i'n bywydau. Oherwydd, yn y tywyllwch mwyaf dudew mae'r enfys fwyaf disglair.

Daliwch ati i weddïo dros y wlad a'r byd wrth i'r pandemig hwn ymledu. Mae'r Esgob Gregory wedi rhoi gweddi i ni ei hadrodd bob dydd; mae hi isod. Mae hwn yn gyfnod anodd iawn, ond bydd yr Eglwys yn dal i fod ar agor bob dydd i gynnig llonyddwch a chysur.

Ni fydd unrhyw oedfan yn yr Eglwys dros y Pasg, ond yr un yw neges y Pasg:

Alelwia! Atgyfododd Crist.

Atgyfododd yn wir. Alelwia!

Gofalwch amdano chi'ch hun a'ch teulu wrth i ni gynnig pa help bynnag y gallwn i'r rheini o'n cwmpas ni. Gyda phob bendith, Val

ANNWYL DAD, A'N CREODD NI AC A'N GWAREDODD NI, AC SYDD WEDI ADDO I NI DY GARIAD, BYDD GYDA NI AR ADEG O BERYGL AC O BRYDER. BYDDED I'R RHAI SY'N DIODDEF, NEU SY'N WAEL, WYBOD AM FENDITH DY RAS, A BYDDED I NI SY'N IACH GAEL EIN HYSBRYDOLI GAN DY YSBRYD I FOD YN DDOETH AC I FOD YN WEISION A MORYNION, YN GWEITHIO I WELLA AC ER CYFANRWYDD PAWB, BOB UN YN EI FFORDD EI HUN. CADW NI'N DAWEL AC YN OFALUS, YN GRYF AC YN BAROD I WASANAETHU, FEL Y GALLWN NI OFALU AM Y RHAI O'N HAMGYLCH AC HEFYD AMDANOM NI EIN HUNAIN. GOFYNNWN HYN YN ENW IESU. AMEN.

Coronofeirws yn yr Eidal – Elen Jones-Evans (12 Mawrth)

Mae'r wlad llawn bwrlwm, lle bydd twristiaid yn tyrru yma ar wyliau, wedi mynd yn fud! Welsom ni ddim byd tebyg ers amser Rhyfel medden nhw! Mae 60 miliwn o bobol mewn cwarantîn!

Mae nifer yr achosion o'r Covid-19 wedi codi bob dydd, (hyd at 500 marwolaeth a tua 10,000 yn dioddef o'r firws). Dyna pam y penderfynodd y llywodraeth ar Fawrth 10fed bod rhaid dod â mesurau llym iawn i ddelio â'r sefyllfa a cheisio atal lledaeniad y firws heintus yma.

Er ein bod yn byw yn Nettuno, 1 cilomedr o Anzio, 60km i'r De o Rufain, dyma sut mae hi arnon ni, sef Elen, Matteo a'r plant Alaw (10), Seren(7) a Lili (5), fel pawb arall yn yr Eidal ar hyn o bryd:

- Dim cyfarch yn y ffordd arferol (cusan bob boch). Dim cyffwrdd dwylo!
- Dim ysgolion ar agor ers Mawrth 4ydd, na gweithgareddau ar ôl ysgol, dim colegau, dim gwasanaethau eglwys, dim tai bwyta, dim siopau gwallt ar agor nac unrhyw siop arall ar wahân i'r siopau bwyd. Dim digwyddiadau chwaraeon o unrhyw fath. Gan nad oes ysgol, mae'r tair ar hyn o bryd yn cael e-byst gan yr athrawon ysgol yn rhoi taflenni gwaith iddyn nhw am y diwrnod.
- Pawb i aros a gweithio o adref (os yn bosibl), a bod o fewn eu huned deuluol – dim gwahodd ffrindiau draw i chwarae. O leiaf, gan fod lawnt i chwarae tu allan gan y tair yma, mae hi'n well arnyn nhw na llawer o'u ffrindiau, sy'n byw mewn fflatiau uchel.
- Dim dathliadau gyda theulu arall, neu ffrindiau gyda'r nos. Dim chwaraeon.
- Mae Matteo a fi wedi gorfod cael caniatâd ar bapur (*permit*) i fynd i'r gwaith, a hyd yn oed i fynd i jogio. Wel, allwn ni ein dau ddim mynd ar yr un tro, ond ceisio gweithio pethau bob yn ail.

- Mae plismyn yn stopio pawb ar y ffyrdd allan o Nettuno i wirio eu papurau Gwaith.
- Mae pawb wrth gwrs yn gorfod mynd i nôl bwyd, ond mae ciw tu allan i'r siopau – gan nad oes mwy na 10 yn cael mynd mewn ar y tro i siopa am eu bwyd. Mae pawb yn cadw mor bell â phosib oddi wrth ei gilydd. Be sy'n waeth ydi'r teimlad yma bod pawb yn ddrwgdybus ac amau pob un arall o fod â'r firws. Hen deimlad annifyr dros ben!
- Gan nad ydi cartrefi hen bobl, ac ysbytai ar agor i'r cyhoedd, mae'n achosi llawer o dorcalon. Mae'n cymydog draws y ffordd yn wael iawn mewn hosbis, a chaiff y wraig druan ddim mynd i ymweld â fo mwy nag unwaith yr wythnos. Mae'n sefyllfa drist iawn.



- Mae'n sefyllfa anodd iawn i lawer o bobol yma. Gobeithio'n wir y daw penllanw'r firws yma'n fuan, ac y cawn lithro'n ôl i ryw fath o normalrwydd – byddai hynny'n wych.

Oriau Agor y Swyddfa Bost

Llun, Mawrth, Iau, Gwener:
9am–12pm; 3pm–5pm
Mercher, Sadwrn: 9am–12.30pm
01824 790310

Crwban Cyflym

‘Y car bach gyda’r galon fawr’ – dyna sut y drisgrifwyd y Crwban Cyflym (*Flying Tortoise*) wrth i’r car Ford Popular 1953 gydag injian 1172 *sidevalve* deithio yr holl ffordd o Llandyrnog i Glasgow, o’r fan honno i Monte Carlo ac yn ol i Llandyrnog yn llwyddiannus ar y Rallie Monte Carlo Classique ddiwedd Ionawr eleni.

Wrth y llyw, am y bedwaredd gwaith, oedd Ian Glass o Landyrnog gyda ei ffrind ysgol Ray Jones (yn wreiddiol o Bryn SM ond erbyn hyn yn byw ar Ynys Skye) yn edrych ar ôl y mapiau.

“Mae cyfanswm oed y criw a’r car yn 204 o flynyddoedd” meddai Ian, “ond cawsom lot o hwyl ac, er i lawer o geir ieuengach a mwy pwerus dorri i lawr, aeth y Ford ymlaen drwy fylchau’r Alpinau cyn disgyn i’r Mediterranean a circuit enwog y Grand Prix ym Monte Carlo.”

Nid hwyl yn unig oedd y daith. Mae Ian, bob amser, yn cefnogi rhyw elusen. Eleni yr oedd yn codi ymwybyddiaeth am achos gweddol newydd yn ardal Wrecsam sef Community Care Collaborative a’r Hwb y maent yn ei gefnogi ar gyfer y di-gartref. Mae’r slogan ‘Strydoedd Wrecsam ar gyfer cerdded – nid cysgu’ i’w weld ar y car.

Mae’r hwb un galwad, sy’n agored bob bore Gwener yn adeilad Byddin yr Iachawdwriaeth, yn rhoi mynediad i rai sy’n cysgu allan at gynrychiolwyr o ystod eang o wasanaethau megis iechyd meddwl a iechyd cyffredinol, camddefnydd o gyffuriau, chwilio am gartref, budd-daliadau, trais yn y cartref a llawer arall.



Dywed Dewi Richards, Cyfarwyddwr Gwasanaeth, “yr ethos tu ôl i’r Hwb yw dod a’r gwasanaethau at y bobl sydd eu hangen yn hwylus”.

Bydd Ian a’r Crwban yn parhau i edrych am ffyrdd eraill i gefnogi’r achos.

Townsend Supplies

**Townsend, Denbigh LL16 3AW
01745 814918**

**For all farmyard & agricultural
accessories & building supplies**

- ☞ **Tanalised timber**
- ☞ **Concrete posts**
- ☞ **Panel fencing**
- ☞ **Water pipe fittings**
- ☞ **Water tanks**
- ☞ **Sand**
- ☞ **Cement**
- ☞ **Concrete blocks**

Gwybodaeth wyddonol

1. Mae dŵr yn cynnwys yr elfennau hydrogen ac ocsigen. Be ydi ei fformwla? HO_2 , H_2O_2 neu H_2O ?
2. Pa nwy sy'n cael ei ddefnyddio mewn deintyddiaeth ac sy'n gwneud i chi chwerthin?
3. Be ydi enw'r cemegyn sydd mewn eirlysiau sy'n cael ei ddefnddio i drin clefyd Alzheimer's?
4. Pa nwy anadweithiol a ddarganfuwyd yn 1898 ac a ddefnyddir mewn lampau mawr cerbydau?
5. Mae aer yn gymysgedd o nwyon. Pa nwy sydd â chanran o 78% yn yr aer?
6. Be ydi symbol cemegol yr elfen Aur?
7. Pa fetal ydi'r unig un sy'n hylif ar dymheredd yr ystafell?
8. Pa gemegydd enwog wnaeth ddarganfod nifer o elfennau, yn cynnwys sodiwm a potasiwm yn 1807?
9. Mae pres yn aloi o ddau fetal, copr a pha fetal arall?
10. Pa lythyren yn yr wyddor sy ddim yn ymddangos yn y Tabl Cyfnodol?
11. Pa elfen sy gyda'r ymdoddbwynt ucha ac yn cael ei ddefnyddio mewn bylbiau?
12. Be ydi enw cyffredin am asid ascorbig?
13. Pa wyddonydd gafodd Gwobr Nobel Cemeg yn 1954 a Gwobr Nobel Heddwch yn 1962?
14. Pa wlad y ganwyd Ernest Rutherford, sy'n cael ei adnabod fel 'tad ffiseg niwclear'?
15. Pa elfen gemegol a enwyd ar ol yr asteroid 'Pallas'?
16. Mewn pa declyn mewn cerbydau cyfoes y defnyddir yr elfennau 'platinwm, paladiwm a rhodiwm' yn bennaf?
17. Tua faint o halen (sodiwm clorid) sydd yn y corff dynol yn gyffredinol? 10g, 100g, 250g neu 500g?
18. Be ydi'r enw a roir ar elfennau sy'n gloywi yn y tywyllwch?
19. Pa elfen a ddefnyddir mewn pensiliau?
20. Pa nwy a ddefnyddir mewn balwnau sy'n eu gwneud i godi yn yr aer?
21. Pam ddylid trin pigiad gwenynen fel gydag alcali?
22. Mewn pa ffrwythau mae'r cemegyn capsaisin sy'n llosgi'r dafod?
23. Pam fod y blaned Mawrth yn ymddangos yn goch?
24. Pa elfen sydd fwyaf cyffredin yn y fyddysawd?
25. Pam fod arogl fresh arbennig yn yr aer yn dilyn storm o fellt a tharanau?
26. Pa nwy sy'n help i ffrwythau aeddfedu?
27. Pam fod peipiau dwr (sydd heb ei lagio) yn byrstio pan mae'n rhewi'n galed iawn?
28. Pa wyddonydd sy'n cael ei gydnabod fel yr un ddarganfyddodd disgyrchiant yn 1687, yn ô y chwedl wrth iddo sylwi ar afal yn syrthio o goeden (er bod eraill wedi trafod disgyrchiant cyn hynny)?
29. Pa wyddonydd enwog o'r Eidal sydd â bys canol ei law dde mewn arddangosfa ym Mhrifysgol Padua?
30. Faint yn fwy o esgyrn sy gan fabis nag oedolion?

Atebion

1. H_2O 2. Nitrogen ocsid 3. Galanthamin 4. Senon 5. Nitrogen 6. Au 7. Mercwri 8. Syr Humphrey Davy (1778-1829) 9. Sinc 10. J 11. Twngsten 12. Fitamin C 13. Linius Pauling (1901-1994) 14. Seland Newydd 15. Paladiwm 16. Trawsnewidydd Catalytig 17. Tua 250g neu hanner pwys 18. Radioactif 19. Carbon (graffit) 20. Helium yn ysgafnach nag aer 21. am ei fod yn asidig 22. Tshilis 23. Cynnwys llawer o haearn ocsid 24. Hydrogen 25. Cynhyrchir oson gan foltedd uchel (tua 50,000) y felt yn adweithio gydag ocsigen yn yr aer 26. Ethen (*ethelene*) 27. Dwr yn ehangu wrth rewi 28. Syr Isaac Newton (1643-1727) 29. Galileo Galilei (1564-1642) 30. 100

Bore Coffi Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2020

Bore Sadwrn 14 Mawrth, ddyddiau'n unig cyn i ni gael y newyddion trist na fydd Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2020 yn cael ei chynnal ar gaeau Kilford eleni, cynhaliwyd Bore Coffi yn y Stafelloedd Coco i gwblhau a phasio'r targed o £8,000 a roddwyd i Bwyllgor Apêl Llandyrnog, Llangwyfan ac Aberchwiler tuag at yr Eisteddfod. Roedd nifer dda wedi dod ynghyd, a llwyddwyd i godi £294.60.

Ar ôl ocsiwn byr, diolchodd Rhys Davies, Is-gadeirydd y Pwyllgor Apêl i bawb am eu cefnogaeth i'r holl weithgareddau a gynhaliwyd er mwyn codi'r arian mawr –



bu digon o weithio caled a chyfle i'r tair cymuned gymdeithasu'n hapus dros y ddwy flynedd diwethaf. Diolch i bawb unwaith eto!

Nodyn gan Sarjant Peter Evans, Heddlu Gogledd Cymru

Yn sgil y sefyllfa ar hyn o bryd, bydd rhai o gynlluniau Heddlu Gogledd Cymru yn cael eu gohirio er mwyn canolbwyntio ar wasanaethau hanfodol. Ni fydd Heddlu Gogledd Cymru yn anfon aelodau'r Tîm Plismona Cymunedol i ddigwyddiadau nac i gyfarfodydd cymunedol hyd y gellir rhagweld. Nid yw hyn yn golygu y byddwn ni'n peidio â chydweithio â'r gymuned, ddim ond ein bod ni'n gweithio ychydig yn wahanol i'r arfer. Os oes gennych unrhyw bryderon sy'n gysylltiedig â'ch cymuned, cysylltwch â ni ar lpssntconwyrural@nthwales.pnn.police.uk.

J & G TYRE SERVICES



CAR - TRUCK -
FARM TYRE SPECIALISTS
BATTERIES & EXHAUSTS

Unit 1
Dyffryn Trading Estate
Rhyl Road
Denbigh
LL16 5SJ

01745 817676
07775 717602



www.sbhandymansolutions.co.uk

Large range of trades – fully insured
Interior & exterior painting and decorating
Wall & floor tiling
Guttering installed, repaired or cleared
Fence & gate building, erecting & repairs
Roof repairs & insulation
... and so much more – just ask if it's not listed here

Please call or text for a free no-obligation quote:

07979431564 or 01824790047

Or contact me via email or Facebook:

s.barke28@gmail.com

facebook.com/SBHandymanSolutions

Cofnodion Cyfarfod Blynnyddol Neuadd Llandyrnog gynhaliwyd 5ed Chwefror 2020

Mynegodd Gwilym Evans cydymdeimlad ag Ivan Butler yn ei brofedigaeth o golli ei dad, a chyfeirio at farwolaeth Doreen Humphreys oedd wedi bod yn aelod gwerthfawr o'r Tîm ar hyd y blynnyddoedd ac wedi cyfrannu cymaint mewn gwahanol ffyrdd.

Ethol Swyddogion

Cadeirydd: G. Butler

Is-gadeirydd: R. Griffiths

Ysgrifennydd: B Davies

Is-ysgrifennydd: W. Wilson

Trysorydd: I. Butler

Clerc Bwcio: W. Wilson

Archwiliwr: A. Pritchard

Cyngor Cymuned Llandyrnog: R. Griffiths

Eglwys Llandyrnog: W. Evans

Eglwys Llangwyfan: W. Wilson

Capel y Dyffryn: A. Jones

Sefydliad y Merched: R. Jones

Eisteddfod: J.H. Roberts

Clwb Pêl Droed/ Cynghair Haf: Gwag

Ysgol Bryn Clwyd: Richard Monteiro

Sioe Flodau: H. Roberts

Clwb Seryddiaeth: Gwag

Y Gymdeithas Hanes: H. Davies (wedi rhoi ei enw ymlaen)

Brownies: K. Morris

Adroddiad y Trysorydd

Cafwyd adroddiad ariannol ysgrifenedig cynhwysfawr gan Ivan ac nid oedd unrhyw faterion o bryder – roedd incwm y Sioe Flodau yn cyfrannu at hyn. Diolchwyd i Ivan am ei waith trylwyr.

Adroddiad y Swyddog Bwcio

Adroddodd Winnie fod nifer o grwpiau'n defnyddio'r Neuadd yn rheolaidd: Grŵp Crefftau, Seryddiaeth, Llan Llanast, Sefydliad y Merched, Brownies, y Gymdeithas Hanes ynghyd â 7 parti pen blwydd a rhai dyddiau crefft.

Roedd yr Ardal Genhadu yn cwrdd bob chwarter ac roedd Merched y Wawr a Menter Iaith yn cwrdd yn achlysurol.

Diolchwyd i Winnie am ofalu am y bwcio a gwneud yn siŵr bod yr holl arian wedi dod i law.

Adroddiad y Sioe Flodau

Sioe ardderchog y llynedd a diolchwyd i Haydn, John a'r Tîm am y llwyddiant parhaol. Er nad oedd Arla bellach yn brif noddwr, cafwyd noddwyr newydd ar gyfer y dosbarthiadau a thyrfâ dda ar ddydd y Sioe – roedd gwerthiant y rafflau yn ardderchog a'r arlwygo'n dda.

Honorariwm

Cynigiwyd ac eiliwyd bod yr Honoraria ar gyfer yr Ysgrifennydd, yr Archwiliwr, y Clerc Bwcio ac Ysgrifennydd y Sioe yn parhau'r un fath â llynedd.

Gofalwr

Penderfynwyd codi tâl y Gofalwr o Ebrill 2020 i fod yn unol â'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol.

Cost Hurio

Penderfynwyd peidio â chynyddu cost hurio'r Neuadd, mae'n parhau ar yr un lefel â 2017.

Materion eraill

Roedd Mr J. Molloy wedi cysylltu â'r Pwyllgor i weld a ellid defnyddio stafell i ddarparu addysg ar gyfer plant ag anghenion addysg ychwanegol. Penderfynwyd yn y diwedd i ddefnyddio'r ystafell uchaf sy'n rhan o les y Cyngor Sir, ond gallai'r Cyngor ystyried cyfrannu tuag at ddefnyddio'r toiledau a'r prif gyntedd. Penderfynodd y pwyllgor ddirprwyo'r penderfyniad terfynol i'r Cadeirydd, y Trysorydd a'r ysgrifennydd.

Cofnodion Cyfarfod Blynnyddol Neuadd Llandyrnog gynhaliwyd 5ed Chwefror 2020

Offer Bowllo (heb eu defnyddio): cytunwyd cael gwared â'r offer os na fyddai rhywun ei eisiau. Penderfynwyd hysbysebu'r offer yn lleol, ac os nad oedd neb am ei ddefnyddio, yna byddai'n cael ei waredu.

Dyweddodd yr Ysgrifennydd ei fod wedi gosod bolltiau baril ar ddrysau toiledau'r merched a'r dynion lawr grisiau, handlen ar ddrws toiled y dynion lawr grisiau, a phictogramau ar y prif doiledau. Gofynnwyd i saer coed lleol osod clo newydd ar gwpwrdd y glanhäwr ym mhrif doiled y merched.

Cegin: Dywedodd Karen fod rhai grwpiau Brwonies yn betrusgar i aros dros nos oherwydd nad oedd y cwcer yn y gegin yn ddigon mawr. Awgrymwyd pe bai math o gwcer drydan estynedig yn cael ei gosod, efallai y byddai bosib denu grwpiau eraill ac felly cynyddu incwm y Neuadd. Penderfynwyd fod Karen yn chwilio am fodel pwrpasol a chael dyfynbrisiau ar gyfer y pwyllgor.

Wi-Fi: Cafwyd ymholiad a fyddai'n bosib cael Wi-Fi yn yr ystafell isaf – Karen i weld a ydi Wi-Fi Cyngor Sir Ddinbych ar gael.

Cost Hurio o Fedi 2020

	AWR GYNTAF	HYD AT 2 AWR	HYD AT 4 AWR MIN NOS	AR ÔL 4 AWR/YR AWR	DIWRNOD
PRIF NEUADD	£14	£28	£36	£6	£60
PRIF NEUADD + CEGIN	£19	£36	£45	£12	£70
YSTAFELL ISAF	£12	£17	£25	£6	£40
YSTAFELL ISAF + CEGIN	£17	£20	£35	£12	£50
YSTAFELL UCHAF	£12	£17	£25	£6	£40